



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Chwefror 2011

Awdur: Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyf: 126A2011

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Cynnwys

Crynodeb	4
Adroddiad Manwl	8
Yr adroddiad hwn	8
Adran 1: Archwilio Cyfrifon	9
Rhoddais farn ddiamedod ar y datganiadau ariannol, ond wrth wneud hynny tynnais sawl mater at sylw'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu	9
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau	12
Mae gofynion sylfaenol fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cadarn ar waith ond mae angen gwneud mwy i ddatblygu trefniadau mewn rhai meysydd pwysig	12
Ceir tystiolaeth o waith cadarnhaol i ddatblygu 'ffactorau galluogi' pwysig a all helpu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy effeithiol, effeithlon a darbodus, ond mae angen gwneud cynnydd mewn meysydd pwysig megis cynllunio'r gweithlu ar raddfa gyflymach	15
Mae angen i'r Bwrdd lechyd ddatblygu ei drefniadau rheoli ariannol ochr yn ochr â chynlluniau gwasanaeth a gweithlu er mwyn gallu mynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebir ganddo mewn ffordd fwy effeithiol	17
Mae adolygiadau archwilio perfformiad unigol wedi tynnu sylw at nifer o heriau penodol a rhai sylweddol yn aml sy'n wynebu'r Bwrdd lechyd; ymhob achos mae mentrau ar waith i ymdrin â'r pryderon a nodwyd er y bydd angen monitro cynnydd yn ofalus er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud	19
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Llythyr Archwilio Blynyddol diwethaf	26
Ffi archwilio	27

Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Crynodeb

1. Cyflwynwyd llythyr blynyddol interim i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) ym mis Mawrth 2010. Roedd yr adroddiad hwnnw'n ymwneud â'm gwaith archwilio ar gyfer cyfnod chwe mis olaf hyd at 30 Medi 2009 cyrff rhagflaenol y Bwrdd Iechyd.
2. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio a wnaed gennyf yn y Bwrdd Iechyd ddiwedd 2009 a thrwy gydol 2010.
3. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
4. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar y risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir mwy o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn, a chytunir arnynt, gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Archwilio cyfrifon

6. Yn sgîl fy ngwaith ar archwilio cyfrifon rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.
7. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
 - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
 - cafodd y Bwrdd Iechyd arian anghylchol ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad a llwyddodd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2009/10;
 - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamdatganiadau perthnasol yn y Datganiadau Ariannol;
 - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad.
8. Wrth roi barn ddiamod, rwyf wedi tynnu sylw'r Bwrdd at nifer o faterion. Gellir crynhoi'r materion hyn fel a ganlyn:
 - Cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio ar amser. Roedd hyn yn dipyn o gamp oherwydd bu'n rhaid eu seilio ar gyfuniad o gyfrifon y chwe sefydliad a fodolai gynt a wnaeth weithredu cyfriflyfrau ar wahân drwy gydol y flwyddyn. Ar hyn o bryd ni all y Bwrdd Iechyd gydymffurfio'n llawn â'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol ar roi cyfrif am asedau a ddisodlir, am nad oes ganddo'r systemau priodol na'r wybodaeth i nodi'r fath werthoedd yn hawdd.

- Gellir gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio sicrwydd mewnol ynghylch y defnydd parhaus o asedau er mwyn sicrhau bod ei gofnodion yn adlewyrchu'r cyfarpar a ddelir ar ddyddiad y fantolen a hynny'n gywir. Mae hefyd angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu'r llwybr archwilio ar gyfer balansau asedau yn y cyfrifon drafft ac mae angen i'r asedau a etifeddwyd oddi wrth yr hen fyrddau iechyd lleol gael eu cynnwys yn y system rheoli asedau.
 - Erys rhwymedigaethau am Ofal Iechyd Parhaus ôl-weithredol yn broblem ariannol sylweddol i'r Bwrdd. Mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei weld o ran asesu effaith ariannol hawliadau nad ymdriniwyd â hwy yn gywir.
9. Nodaf i'r Bwrdd Iechyd gael arian anghylchol ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad a llwyddo i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2009/10.

Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

10. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Aethpwyd ati i wneud hyn ar ffurf asesiad strwythuredig o'r trefniadau corfforaethol perthnasol yn y Bwrdd Iechyd, a nifer o adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd penodol o ddarparu gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi'm harwain at y casgliadau a nodir isod.

Mae gofynion sylfaenol fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cadarn ar waith ond mae angen gwneud mwy i ddatblygu trefniadau mewn rhai meysydd pwysig

11. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio gweledigaeth pum mlynedd lefel uchel ond nis ategir yn llawn eto gan gynlluniau cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau, y gweithlu na materion ariannol;
 - dylai'r strwythur sefydliadol y mae'r Bwrdd wedi'i fabwysiadu ategu'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol ar yr amod bod gwaith parhaus yn mynd rhagddo i sicrhau bod pob aelod o staff yn ei ddeall, a'i fod yn cael ei ategu gan brosesau ymgysylltu ac arwain clinigol effeithiol;
 - mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun dirprwyo sy'n weddol gadarn ond bydd angen iddo barhau i ddatblygu a chael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfystyr â fframwaith llywodraethu effeithiol;
 - er bod y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i reoli risgiau gweithredol yn ymddangos yn weddol gadarn, nid yw ei drefniadau rheoli risg gorfforaethol wedi'u rhoi ar waith yn llawn eto;
 - ceir systemau rheolaeth fewnol allweddol ond gellid atgyfnerthu rhai o'r rhain ymhellach;
 - er bod angen i'r Bwrdd Iechyd adeiladu ar nifer o gryfderau allweddol mewn perthynas â TGCh, ceir heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy o ran seilwaith TG, gweithredu cynlluniau TGCh a defnyddio'r pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn y ffordd orau bosibl;
 - bu gwelliannau parhaus yn y ffordd y cyflwynir adroddiadau ar berfformiad i'r Bwrdd, ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y wybodaeth

dan sylw yn glir ac yn ddigon eang ei chwmpas fel y gellir monitro'r broses o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd;

- mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â chyflwyno'r trefniadau angenrheidiol i sicrhau cywirdeb a phriodoldeb ei weithdrefnau busnes, ond mae angen gwneud rhagor o waith mewn ambell faes.

Ceir tystiolaeth o waith cadarnhaol i ddatblygu 'ffactorau galluogi' pwysig a all helpu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy effeithiol, effeithlon a darbodus, ond mae angen gwneud cynnydd mewn meysydd pwysig megis cynllunio'r gweithlu ar raddfa gyflymach

12. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- er bod tystiolaeth o gynnydd o ran cynllunio'r gweithlu, ni luniwyd cynllun gweithlu ar gyfer y Bwrdd lechyd eto sy'n gwbl ymatebol i'r pwysau presennol a welir ar wasanaethau a chyllid;
- mae'r modd y mae'r Bwrdd lechyd yn rheoli ei sylfaen asedau yn weddol gadarn, ond ceir heriau sy'n gysylltiedig â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ac mae angen ymdrin â'r risgiau sydd ynghlwm wrth amseru'r gwaith o ddatblygu'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol;
- ymddengys bod y Bwrdd lechyd yn ymdrin â gwendidau a nodwyd gennym yn flaenorol yn ei system gaffael;
- ceir sylfeini da i ategu gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y Bwrdd lechyd a'i bum awdurdod lleol cyfansoddol;
- gwelir tystiolaeth o nifer o fentrau cadarnhaol mewn perthynas â chynnwys cleifion a'r cyhoedd.

Mae angen i'r Bwrdd lechyd ddatblygu ei drefniadau rheoli ariannol ochr yn ochr â chynlluniau gwasanaeth a gweithlu er mwyn gallu mynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebir ganddo mewn ffordd fwy effeithiol

13. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- mae angen datblygu gwaith cynllunio ariannol ochr yn ochr â gwaith cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu;
- mae'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol yn datblygu ond mae angen gwneud mwy i ddangos sut mae perfformiad ariannol yn gysylltiedig â thargedau gweithredol fel rhan o'r gwaith o gyflwyno adroddiadau cyffredinol ar berfformiad i'r Bwrdd;
- gyda £28.7 miliwn ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, mae'r Bwrdd lechyd bellach yn darogan y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond gwelir cryn bwysau ariannol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae adolygiadau archwilio perfformiad unigol wedi tynnu sylw at nifer o heriau penodol a rhai sylweddol yn aml sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd; ymhob achos mae mentrau ar waith i ymdrin â'r pryderon a nodwyd er y bydd angen monitro cynnydd yn ofalus er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud

14. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:
- ymddengys bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu dulliau dysgu sefydliadol cadarn a ddylai helpu i sicrhau bod y gwersi angenrheidiol yn cael eu dysgu yn dilyn cwynion, digwyddiadau andwyol a hawliadau esgeuluster clinigol;
 - nid yw systemau TG y Bwrdd Iechyd yn ei gwneud yn hawdd cyflwyno adroddiadau cywir ar ddata amseroedd atgyfeirio i gael triniaeth;
 - er i rai gwelliannau pwysig gael eu gweld ym maes gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion ers 2005, ceir bylchau annerbyniol o hyd mewn gwasanaethau a thystiolaeth o anghydraddoldebau ymhob rhan o'r gymuned iechyd;
 - er bod trefniadau arlwygo mewn ysbytai yn dangos sawl agwedd ar arfer da cydnabyddedig, mae lle i leihau nifer y gwahaniaethau nas dymunir mewn arferion a gweithredu i leihau faint o wastraff bwyd diangen a gynhyrchir;
 - mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu rhai heriau penodol mewn perthynas â staff meddygol, sy'n ymwneud â chynllunio swyddi ymgynghorol a lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon locwm mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

15. Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Chwefror 2011. Yna caiff ei gyflwyno mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd.
16. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

Yr adroddiad hwn

17. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau bwrdd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed rhwng mis Hydref 2009 a mis Tachwedd 2010.
18. Gwneir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i ofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
 - a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd;
 - b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
 - c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
19. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
 - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig o'r Bwrdd Iechyd, gan archwilio'r trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu, atebolrwydd a rheoli adnoddau;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
20. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.
21. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
 - archwilio cyfrifon;
 - trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.
22. Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i wneud fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, o gymharu â'r ffi a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio.

Adran 1: Archwilio cyfrifon

23. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2009-10. Drwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredol net/gwarged, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o archwilio datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

Fy nghyfrifoldebau

24. Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i archwilwyr roi eu barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
 - rheoleidd-dra'r gwariant ac incwm.
25. Wrth gyflwyno'r farn hon, mae'n ofynnol i archwilwyr gydymffurfio â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
26. Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
 - systemau ariannol ar gyfer llunio'r Datganiadau Ariannol.

Rhoddais farn ddiamod ar y datganiadau ariannol, ond wrth wneud hynny tynnais sawl mater at sylw'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu

Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

27. Cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio yn unol â'r terfyn amser cytûn sef 14 Mai 2010. Roedd hyn yn dipyn o gamp oherwydd bu'n rhaid i'r cyfrifon drafft gael eu seilio ar gyfuniad o gyfrifon y chwe sefydliad a fodolai gynt a wnaeth weithredu cyfriflyfrau ar wahân drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cymhlethdod hwn wedi'i ddatrys bellach yn dilyn sefydlu un cyfriflyfr ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan o 1 Ebrill 2010.
28. Roedd y cyfrifon drafft yn cynnwys nifer o wallau dosbarthu ac addasiadau a gywirwyd yn ystod ein harchwiliad. Y flwyddyn nesaf dylai fod yn bosibl i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y cynhelir adolygiad mewnol manylach o'r datganiadau ariannol drafft cyn eu cyflwyno drwy ei gynnwys fel rhan o'i amserlen cau cyfrifon.

29. Cytunodd y Bwrdd a ninnau i gynnal sesiwn 'dysgu ôl-prosiect'. Nododd y sesiwn hon nifer o feysydd lle y gellid gwella'r broses o baratoi cyfrifon mewn da bryd ar gyfer y gwaith o lunio cyfrifon drafft 2010-11 ac mae'r Bwrdd wedi paratoi cynllun i fynd i'r afael â hwy.
30. Mae'n ofynnol i mi yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cafodd yr adroddiad eleni ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd lechyd ym mis Mehefin 2010. Crynhoir y materion a gododd yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn adroddiad ISA 260

Mater	Sylwadau archwilwyr
Gwnaed nifer o gywiriadau i'r datganiadau ariannol	Roedd yr addasiadau gofynnol yn ymwneud yn bennaf â lle y gwnaed amcangyfrifon a darpariaethau yn y cyfrifon drafft. Gwnaed addasiadau o ganlyniad i'r ffaith bod ffigurau mwy cyfredol neu wirioneddol ar gael cyn i'n harchwiliad ddod i ben. Effaith net y cywiriadau hyn oedd cynnydd o ryw £78,000 yn y Datganiadau Costau Gweithredu.
Ar hyn o bryd ni all y Bwrdd lechyd gydymffurfio'n llawn â'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol ar roi cyfrif am asedau a ddisodlir	Mae angen i werth dros ben ased a ddisodlwyd gael ei ddileu o'r gwerthoedd asedau (dadgydnabod) a dylai unrhyw enillion neu golledion gael eu hadlewyrchu yn y cyfrif refeniw. Ar hyn o bryd nid oes gan y Bwrdd lechyd systemau priodol ar waith na gwybodaeth wrth law i'w gwneud yn hawdd cyfrif am y broses o ddadgydnabod y fath asedau.
Mae angen i'r Bwrdd lechyd wella'r broses o reoli asedau sefydlog mewn perthynas â chylchredu a symleiddio llwybrau archwilio	Mae'r ffordd y caiff balansau asedau sefydlog eu llunio yn gymhleth a nodwyd gwallau yn y cyfrifon drafft. Felly mae angen gwneud gwelliannau i'r llwybr archwilio er mwyn ategu'r cyfrifon drafft. Hefyd, nid oedd system asedau sefydlog y Bwrdd lechyd yn cynnwys manylion pob ased a etifeddwyd oddi wrth yr hen fyrddau iechyd lleol.
Mae angen gwella cywirdeb cofnodion Gofal lechyd Parhaus (GIP) oherwydd gwelwyd nifer o wallau yn ein profion sampl	Nododd ein harchwiliad fod angen gwneud gwelliannau i'r broses o nodi darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn am fod y wybodaeth a gofnodir yn y gronfa ddata ar gyfer hawliadau GIP ôl-weithredol yn rhy anghyflawn, mewn sawl achos, i allu cynnal asesiad cadarn o rwymedigaeth ariannol y Bwrdd lechyd. Gwelwyd hefyd fod materion ynghylch cywirdeb a chysondeb data yn y cyfrifyfr ariannol a'r cronfeydd data gwahanol ar gyfer hawliadau GIP ôl-weithredol, hawliadau GIP parhaus a chostau gofal nyrsio wedi'u hariannu.

Fel rhan o'n harchwiliad ariannol gwnaethom hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- O ran ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y Bwrdd lechyd, daethom i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ar 31 Mawrth 2010, a pharatowyd y ffurflen yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- O ran y Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd, daethom i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn.

- O ran y cyfrif Memorandwm Cyllideb Gyfunol, daeth ein hadroddiad archwilio i'r casgliad y gellid mireinio ffurf y Cyfrif Memorandwm, ac y gellid atgyfnerthu'r prosesau rheoli a fabwysiadwyd i'w baratoi drwy ychwanegu gwiriad annibynnol o'i gywirdeb.
- Mae'r archwiliad ar wahân a gynhaliwyd hefyd i asesu a yw'r Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedolaeth yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cronfeydd elusennol ar y dyddiad cyfrifyddu ac adnoddau'r elusen a ddaeth i mewn ac a wariwyd ar gyfer y flwyddyn bellach wedi'i gwblhau. Bu oedi cyn y cam clirio terfynol oherwydd yr angen i gael cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau i drosglwyddo'r cronfeydd i enw'r Bwrdd Iechyd.

Cafodd y Bwrdd Iechyd arian anghylchol ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad a llwyddodd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2009/10

31. Cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd ei Derfyn Adnoddau Refeniw sef £884.952 miliwn a nododd danwariant o £80,000 a wnaeth ystyried yr arian anghylchol refeniw ar ddiwedd y flwyddyn oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol ar y cyfan i leihau'r risg o gamdatganiadau perthnasol yn y Datganiadau Ariannol

32. Ni nododd ein gwaith unrhyw bryderon difrifol mewn perthynas ag amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd na'i allu i leihau'r risg o gamdatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, yn ein hadroddiad i'r rheolwyr ar y cyfrifon terfynol nodwyd nifer o argymhellion mewn perthynas â rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd. Trafodwyd a chytunwyd ar y materion hyn gyda'r rheolwyr. Daethom i'r casgliad fod gan y Bwrdd Iechyd reolaethau mewnol priodol o fewn systemau ariannol allweddol heblaw am y system cyflogres/adnoddau dynol a'r system Gofal Iechyd Parhaus yr oedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi codi pryderon yn eu cylch gyda'r cyrff a ragflaenodd y Bwrdd Iechyd.

Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad

33. Yn gyffredinol, cadarnhaodd ein gwaith fod systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol a'u bod yn gweithredu yn ôl y bwriad. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 8 ac Arddangosyn 1 uchod, gellir gwneud gwelliannau i'r ffyrdd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrif am ei asedau sefydlog a'i gostau gofal iechyd parhaus. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor Archwilio at y materion hyn.
34. Gwnaeth ein harbenigwyr Technoleg Gwybodaeth hefyd adolygu a phrofi Systemau Rheoli Ariannol Oracle. Tra nododd eu hadolygiad mai system genedlaethol yw hon, a weinyddir gan y Tîm Canolog ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac a gynhelir gan ddarparwr gwasanaeth, sef Patech, nodwyd rhai argymhellion ar gyfer gwella a chytunwyd ar y rhain gyda'r rheolwyr yn ein hadroddiad ar y cyfrifon terfynol.

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

35. Mae gofyniad statudol arnaf i fod yn fodlon bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. I helpu i fodloni'r gofyniad hwn, cynhaliodd yr archwilwyr 'asesiad strwythuredig' o'r trefniadau corfforaethol perthnasol yn y Bwrdd Iechyd. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn wedi ystyried y trefniadau ar gyfer y canlynol:
- llywodraethu ac atebolrwydd;
 - defnyddio "ffactorau galluogi" allweddol i ategu'r defnydd o adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus;
 - rheoli ariannol.
36. Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn crynhoi canfyddiadau nifer o adolygiadau archwilio perfformiad penodol a gwblhawyd gennyf yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf.

Mae gofynion sylfaenol fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cadarn ar waith ond mae angen gwneud mwy i ddatblygu trefniadau mewn rhai meysydd pwysig

Mae safonau llywodraethu ac atebolrwydd uchel yn ofynion sylfaenol wrth ddangos y gwarchodir arian cyhoeddus mewn modd effeithiol ac y defnyddir adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae angen i fyrdau cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt 'fframwaith sicrwydd' effeithiol ar waith i ategu'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu ar berfformiad. Fel rhan o'r Asesiad Strwythuredig, mae archwilwyr wedi edrych ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Bwrdd Iechyd. Crynhoir eu canfyddiadau yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2 Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd

Prif gasgliad	Rhagor o wybodaeth
Gweledigaeth strategol	
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio gweledigaeth pum mlynedd lefel uchel ond nis ategir yn llawn eto gan gynlluniau cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau, cynlluniau gweithlu a materion ariannol	<p>Mae cynllun pum mlynedd y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno gweledigaeth lefel uchel o'r hyn y mae am ei gyflawni, a thrwy wneud hynny rydd ffordd o bennu blaenoriaethau gweithredu a nodi mesurau lefel uchel o lwyddiant.</p> <p>Er bod ymgysylltu da wedi bod â rhanddeiliaid megis y Cyngor Iechyd Cymuned, a thrafodaethau agored a thryloyw ynghylch y cynllun yn y prif Fwrdd, mae'r terfynau amser ar gyfer ei lunio wedi cyfyngu ar ymgynghoriad llawn ac eang gyda'r gymuned iechyd.</p> <p>Gellir atgyfnerthu'r trefniadau cynllunio strategol presennol drwy lunio cynlluniau sy'n nodi sut y caiff gwasanaethau eu trawsnewid a'u moderneiddio.</p> <p>Byddai datblygiadau pellach o ran targedau a mesur canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r cynllun pum mlynedd hefyd yn ddymunol.</p>

Prif gasgliad	Rhagor o wybodaeth
Strwythur y sefydliad	
<p>Dylai'r strwythur sefydliadol y mae'r Bwrdd lechyd wedi'i fabwysiadu ategu'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol ar yr amod bod gwaith parhaus yn mynd rhagddo i sicrhau bod pob aelod o staff yn ei ddeall, a'i fod yn cael ei ategu gan brosesau ymgysylltu ac arwain clinigol effeithiol</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau ystyriol a chynhwysol i ddatblygu ei strwythur staff, gan dreulio amser yn casglu barn y sefydliad cyfan.</p> <p>Dylai'r strwythur a gaiff ei greu helpu'r Bwrdd i gyflawni ei amcanion strategol, er y bydd angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y strwythur a'i linellau atebolrwydd cysylltiedig yn cael eu deall gan staff.</p> <p>Cynlluniwyd y strwythur i hyrwyddo'r gwaith o integreiddio staff clinigol a rheoli, er bod ein gwaith mewn amrywiaeth o brosiectau archwilio perfformiad yn amlygu rhai heriau parhaus ym maes ymgysylltu clinigol.</p> <p>Mae'r strwythur sefydliadol yn cynnwys ardaloedd (sy'n rhannu'r un ffiniau ag awdurdodau unedol) a nifer o isadrannau gweithredol. Wrth i'r strwythur barhau i ymsefydlu, bydd angen cynnal adolygiadau parhaus er mwyn sicrhau bod gwaith integredig priodol yn cael ei gynnal ymhob rhan o'r Bwrdd lechyd ac nad yw gweithgareddau nac adnoddau yn dod yn seiliedig ar 'seilo'.</p>
Cynllun dirprwyo	
<p>Mae gan y Bwrdd lechyd gynllun dirprwyo sy'n weddol gadarn ond y bydd angen iddo barhau i ddatblygu a chael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfystyr â fframwaith llywodraethu effeithiol</p>	<p>Ymddengys bod Bwrdd y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol ac mae wedi mabwysiadu cynllun dirprwyo sy'n bodloni gofynion sylfaenol fframwaith llywodraethu effeithiol.</p> <p>Fodd bynnag, mae angen parhau i esblygu ac adolygu trefniadau er mwyn sicrhau bod rolau priod is-bwyllgorau'r Bwrdd yn glir ac yn cael eu hategu gan drefniadau cadarn ar gyfer cydweithio rhwng y pwyllgorau gwahanol. Mae hyn yn arbennig o wir am y Pwyllgor Llywodraethu a Sicrwydd a gafodd ei greu yn ystod 2010 fel modd i ddwyn ynghyd faterion sy'n codi o'r is-bwyllgorau gwahanol.</p> <p>O ystyried graddau a chymhlethdod busnes y Bwrdd lechyd wynebier her parhaus i sicrhau bod agendâu cyfarfodydd pwyllgorau yn realistig ac osgoi gweld trafodaethau pwyllgorau yn mynd yn rhy weithredol.</p>
Rheoli risgiau	
<p>Er bod y modd y mae'r Bwrdd lechyd yn mynd ati i reoli risgiau gweithredol yn ymddangos yn weddol gadarn, nid yw ei drefniadau rheoli risg gorfforaethol wedi'u rhoi ar waith yn llawn eto</p>	<p>Er bod y gwaith o reoli risg ar lefelau adrannol, gweithredol a chlinigol yn dda ar y cyfan, mae angen datblygu ymhellach y trefniadau i reoli risg gorfforaethol er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau perthnasol yn cael eu nodi a bod y gofrestr risg gorfforaethol yn llywio gwaith y Bwrdd yn briodol.</p>

Prif gasgliad	Rhagor o wybodaeth
Amgylchedd rheolaeth fewnol	
<p>Ceir systemau rheolaeth fewnol allweddol ond gellid atgyfnerthu rhai o'r rhain ymhellach</p>	<p>Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gwneud cyfraniad effeithiol i'r gwaith o lywodraethu'r Bwrdd lechyd ac mae wedi cynnal gwerthusiad gonest o'i flwyddyn gyntaf o waith a fydd yn ddefnyddiol wrth lywio ei flaenraglen waith. Mater pwysig a gododd yn ystod y gwerthusiad hwn oedd yr angen i egluro rôl y Pwyllgor Archwilio wrth roi sicrwydd cyffredinol i'r Bwrdd o fewn y strwythur is-bwyllgorau y mae'r Bwrdd lechyd wedi'i greu.</p> <p>Mae'r Datganiad am Reolaeth Fewnol (SIC) yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd lechyd. Fodd bynnag, mae lle i roi mwy o amlygrwydd i'r SIC o fewn y sefydliad a'i wneud yn fwy cynhwysfawr o ran y modd yr ymdriniwyd â risgiau ôl-weithredol a sut y rheolir risgiau posibl, gallai hefyd ganolbwyntio'n gliriach ar ansawdd gofal a chanlyniadau.</p> <p>Atgyfnerthwyd trefniadau Archwilio Mewnol o ganlyniad i benodi contractwr newydd i ddarparu rhan sylweddol o'r gwasanaeth. Ceir rhaglen o waith Archwilio Mewnol sy'n seiliedig ar risg sy'n dechrau gwneud cyfraniad effeithiol i drefniadau sicrwydd y Bwrdd.</p> <p>Nid yw'r gweithgarwch archwilio clinigol presennol yn cysylltu'n glir ag amcanion strategol y Bwrdd a'r risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod archwiliadau clinigol yn dod yn rhan fwy annatod o fframwaith sicrwydd ac integredig ehangach y Bwrdd.</p>
Rheoli perfformiad	
<p>Bu gwelliannau parhaus yn y ffordd y cyflwynir adroddiadau ar berfformiad i'r Bwrdd, ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y wybodaeth dan sylw yn glir ac yn ddigon eang ei chwmpas fel y gellir monitro'r broses o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd lechyd</p>	<p>Dros y 12 mis diwethaf gwelwyd gwelliannau amlwg yn y ffordd y mae gwybodaeth am berfformiad yn cael ei rhoi i'r Bwrdd. Bellach cyfunir dull gweithredu dangosfwrdd â gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad, a chaiff adroddiadau manylach eu paratoi hefyd ar faterion penodol.</p> <p>Mae lle i sicrhau y datblygir y trefniadau presennol ymhellach. Dylai'r defnydd o ddeialau dangosfwrdd mewn adroddiadau ar berfformiad gael ei adolygu oherwydd nid yw bob amser yn hawdd eu dehongli. Bydd hefyd angen ymhelaethu ar gynnwys gwybodaeth am berfformiad a roddir y tu hwnt i fesurau'r Fframwaith Gweithredu Blynyddol er mwyn helpu i fesur y broses o gyflawni amcanion strategol ehangach y Bwrdd.</p>
Sicrhau cywirdeb a phriodoldeb	
<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â chyflwyno'r trefniadau angenrheidiol i sicrhau cywirdeb a phriodoldeb ei weithdrefnau</p>	<p>Cyflwynwyd trefniadau priodol i hyrwyddo a helpu i sicrhau cywirdeb a phriodoldeb wrth gynnal busnes y Bwrdd lechyd.</p> <p>Bydd angen gwneud datblygiadau pellach i fabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer pob aelod o staff, a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r fath god. Hefyd, dylid</p>

Prif gasgliad	Rhagor o wybodaeth
busnes, ond mae angen gwneud rhagor o waith mewn ambell faes	cyflwyno gweithdrefnau i ymdrin â gwrthdaro buddiannau posibl yn ystod prosesau caffael. Gallai'r "risg o dwyll" chwarae rhan fwy amlwg yng nghamau rheoli risg y Bwrdd Iechyd, a byddai cynnwys cynllun gwaith y Gwasanaethau Gwrth Dwyll Lleol yn cael ei lywio'n ddefnyddiol drwy gwblhau ymarfer asesu risg gan y Bwrdd Iechyd.

Ceir tystiolaeth o waith cadarnhaol i ddatblygu 'ffactorau galluogi' pwysig a all helpu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy effeithiol, effeithlon a darbodus, ond mae angen gwneud cynnydd mewn meysydd pwysig megis cynllunio'r gweithlu ar raddfa gyflymach

37. Mae prosesau rheoli cadarn mewn perthynas ag adnoddau allweddol, megis pobl ac asedau, yn rhan hanfodol o'r gwaith o sicrhau gwerth da am arian. Mae angen i gynlluniau datblygu gwasanaethau ac arbed costau gael eu hategu gan waith effeithiol o ran cynllunio'r gweithlu, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi fy nghanfyddiadau yn y meysydd canlynol:

- trefniadau cynllunio'r gweithlu;
- technoleg gwybodaeth;
- caffael;
- rheoli asedau;
- gweithio gyda sefydliadau partner;
- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

Arddangosyn 3: Ffactorau sy'n galluogi'r defnydd o adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus

Prif gasgliadau	Rhagor o wybodaeth
Cynllunio'r gweithlu	
Er bod tystiolaeth o gynnydd o ran cynllunio'r gweithlu, ni luniwyd cynllun gweithlu ar gyfer y Bwrdd Iechyd eto sy'n gwbl ymatebol i'r pwysau presennol a welir ar wasanaethau a chyllid	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi neilltuo llawer o amser a sylw i gynllunio'r gweithlu ac mae'r cynnydd a wnaed yn amlwg. Fodd bynnag, ni pharatowyd cynllun gweithlu sy'n gwbl ymatebol i bwysau presennol o ran gwasanaethau a materion ariannol eto. Mae cynllun gweithlu o'r fath yn allbwn allweddol sydd ei angen i ategu'r gwaith o gyflawni amcanion strategol a gweithredol y Bwrdd Iechyd, a sicrhau eu bod yn dal i fod yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy yn nhermau staff.
Technoleg gwybodaeth	
Er bod angen i'r Bwrdd Iechyd adeiladu ar nifer o gryfderau allweddol mewn perthynas â TGCh, ceir heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy o ran seilwaith TG, gweithredu cynlluniau	Caiff yr agenda llywodraethu gwybodaeth a TGCh amlygrwydd yn y Bwrdd Iechyd. Mae cynllun gweithredu TGCh cynhwysfawr, os yn uchelgeisiol, ar waith a gwneir cynnydd da o ran gweithredu cynlluniau TGCh cenedlaethol yn lleol. Hefyd ceir enghreifftiau o arferion arloesol megis y cynlluniau e-gyfeirio ac e-ryddhau.

Prif gasgliadau	Rhagor o wybodaeth
<p>TGCh a defnyddio'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn y ffordd orau bosibl</p>	<p>Disgwylir i System Gweinyddu Cleifion (PAS) y Bwrdd lechyd, sydd wedi dyddio bellach, gael ei disodli gan system Myrddin yn 2011. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol hirddisgwylidig, er y bydd angen rheoli risgiau o ran cynnal gwybodaeth reoli wrth drosglwyddo data o'r hen system i'r system newydd.</p> <p>Nid yw'r problemau a nodwyd gennym mewn perthynas â chadernid y system wedi'u datrys yn llawn eto, ac ni ddyrannwyd yr holl adnoddau sydd eu hangen ar y strategaeth TGCh a'r cynllun gweithredu ategol eto, gan beri pryder nad yw cynllun y Bwrdd lechyd yn fforddiadwy o bosibl.</p> <p>Mae'r agenda TGCh yn eang ei chwmpas a bydd yn gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ei goruchwyllo'n ofalus a chraffu arni'n agos. Gwelwyd heriau hyd yn hyn o ran sicrhau bod agendâu'r pwyllgor hwn yn parhau i fod yn hawdd eu rheoli a chynnal cydbwysedd rhwng prosesau goruchwyllo strategol a manylder gweithredol.</p>
<p>Caffael</p>	
<p>Ymddengys bod y Bwrdd lechyd yn ymdrin â gwendidau a nodwyd gennym yn flaenorol yn ei system gaffael</p>	<p>Ymddengys bod y Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn dilyn gwaith blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru ar gaffael yn hen Ymddiriedolaeth y GIG. Cynhelir adolygiad dilynol manylach o gynnydd ar hyn o bryd a chyflwynir adroddiad arno i'r Bwrdd lechyd yn ddiweddarach yn 2011.</p>
<p>Rheoli asedau</p>	
<p>Mae'r modd y mae'r Bwrdd lechyd yn rheoli ei sylfaen asedau yn weddol gadarn, ond ceir heriau sy'n gysylltiedig â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ac mae angen ymdrin â'r risgiau sydd ynghlwm wrth amseru'r gwaith o ddatblygu'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol</p>	<p>Mae trefniadau rheoli asedau technegol yn gadarn ar y cyfan a cheir enghreifftiau da o ddefnyddio asedau ar y cyd ag asiantaethau eraill.</p> <p>Fodd bynnag, erys costau ôl-groniad cynnal a chadw yn her gyda chostau'n cynyddu fymryn yn 2009-10 i ychydig o dan £57.3 miliwn. Fodd bynnag, bydd y ffaith bod nifer o ysbytai hyn yn cael eu disodli a bod ysbytai newydd yn Ystrad Mynach a Glynebwy yn cael eu hagog yn arwain at leihau'r costau hyn yn sylweddol mewn blynyddoedd i ddod.</p> <p>Ni luniwyd strategaeth ystadau gynhwysfawr eto, yn bennaf oherwydd ansicrwydd parhaus ynghylch amseru'r gwaith o ddatblygu'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol yn Llanfrechfa. Parhau'n gadarnhaol a wna'r trafodaethau ynghylch y datblygiad hwn gyda Llywodraeth y Cynulliad, fodd bynnag, ac ystyrir cyflwyno'r cyfleuster newydd fesul cam.</p>
<p>Gweithio gyda sefydliadau partner</p>	
<p>Ceir sylfeini da i ategu gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y Bwrdd lechyd a'i bum awdurdod lleol cyfansoddol</p>	<p>Mae'r broses o greu isadrannau ardal yn y Bwrdd lechyd wedi ategu gwaith partneriaeth gydag awdurdodau lleol ac wedi bod yn fodd i adeiladu ar enghreifftiau cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth a fodolai cyn ad-drefnu'r GIG.</p>

Prif gasgliadau	Rhagor o wybodaeth
	<p>Ceir enghreifftiau calonogol o gydweithio mewn meysydd allweddol megis iechyd meddwl a phobl fregus, a datblygwyd trefniadau gwaith cadarnhaol gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC).</p> <p>Bydd angen i'r trefniadau gwaith partneriaeth cadarnhaol hyn gael eu cynnal fel rhaglenni allweddol megis symud y gwaith ar Bobl Fregus o'r cam cynllunio i'r cam gweithredu.</p> <p>Bydd hefyd angen i'r Bwrdd Iechyd feithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol cyson gyda'r pum ardal awdurdod unedol er mwyn sicrhau bod cyflymdra'r newid a'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau yn parhau'n gyfartal ymhob ardal.</p>
Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau	
<p>Gwnaed dechrau da o ran cynnwys cleifion a'r cyhoedd</p>	<p>Gwelwyd ffocws nodedig ar y defnydd o straeon cleifion i ddisgrifio profiad defnyddwyr gwasanaethau, a dysgu o ddigwyddiadau andwyol a chwynion. Lluniwyd strategaeth profiad cleifion hefyd.</p> <p>Sefydlwyd cydbwylgor cynllunio gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned ac mae'n ffordd gadarnhaol o ymgysylltu a chynghori, ac yn esiampl bosibl i eraill yng Nghymru ei dilyn.</p> <p>Un enghraifft dda o ddull y Bwrdd Iechyd o gynnwys y cyhoedd yw'r ffaith ei fod wedi gallu gwneud newidiadau didrafferth i wasanaethau, a allai fod yn ddadleuol, sydd wedi cynnwys cau ysbytai. Mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn y dyfodol a fydd yn angenrheidiol wrth i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ei gynlluniau strategol.</p>

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ei drefniadau rheoli ariannol ochr yn ochr â chynlluniau gwasanaeth a gweithlu er mwyn gallu mynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebier ganddo mewn ffordd fwy effeithiol

- 38.** Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae safonau uchel wrth reoli arian yn bwysicach nag erioed. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi fy nghanfyddiadau mewn perthynas â threfniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ac yn ystyried:
- trefniadau cynllunio ariannol;
 - trefniadau rheoli costau a monitro'r gyllideb;
 - y cynnydd a wneir gyda rhaglenni arbed costau, a gallu'r Bwrdd Iechyd i wario o fewn ei derfynau adnoddau.

Arddangosyn 4 Trefniadau rheoli ariannol

Prif gasgliad	Rhagor o wybodaeth
Cynllunio ariannol	
Mae angen datblygu gwaith cynllunio ariannol ochr yn ochr â gwaith cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu	Hyd yn hyn nid oes cysylltiad clir rhwng gwaith cynllunio ariannol ac amcanion strategol cynhwysfawr y Bwrdd lechyd, ac ni chaiff y cynllun ariannol pum mlynedd lefel uchel ei ategu gan gynlluniau darparu gwasanaethau a'r gweithlu cadarn. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau'r cysylltiadau angenrheidiol rhwng cynllunio gwasanaethau a chynllunio materion ariannol, ac i ymdopi ag effaith bosibl unrhyw raglenni cyfalaf neu arbed costau mawr.
Rheoli costau a monitro'r gyllideb	
Mae'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol yn datblygu ond mae angen gwneud mwy i ddangos sut mae perfformiad ariannol yn gysylltiedig â thargedau gweithredol fel rhan o'r gwaith o gyflwyno adroddiadau cyffredinol ar berfformiad i'r Bwrdd	Yn ystod 2010-11, mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cryn dipyn o waith i'w alluogi i lunio adroddiadau priodol i ategu'r ffurflenni monitro misol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd y gwaith hwn ei wneud ar adeg pan symudwyd i ddefnyddio un cyfriflyfr ar 1 Ebrill 2010 ar ôl defnyddio chwe chyfriflyfr blaenorol yn y cyrff a'i rhagflaenodd. Erbyn hyn cysonwyd cyllidebau â'r cyfriflyfr newydd yn llawn. Yn ogystal â chefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r wybodaeth a ddefnyddir i lunio'r adroddiad misol yn sylfaen i hysbysu'r Bwrdd o'i sefyllfa ariannol fisol. Mae hefyd yn dangos beth yw'r sefyllfa ragamcanol ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw achosion sylfaenol y gorwario presennol a disgwylidig bob amser yn hawdd eu nodi. Hefyd, nid yw'n glir pa gamau (os o gwbl) a gymerir i ymdrin â gorbenion yn erbyn y gyllideb.
Y gallu i barhau i wario o fewn terfynau adnoddau	
Gyda £28.7 miliwn ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, mae'r Bwrdd lechyd bellach yn darogan y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond gwelir cryn bwysau ariannol yn y blynyddoedd i ddod	Ar ddechrau'r flwyddyn, nododd y Bwrdd lechyd fod angen arbed £78.6 miliwn yn ystod y flwyddyn i'w alluogi i barhau o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Mae'r gyfradd redeg wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf ac mae'r Bwrdd yn disgwyl arbed dros £50 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Gan fynd ymlaen, mae'r arian ychwanegol a natur anghylchol peth o arbedion 2010-11 yn golygu bod y Bwrdd lechyd, ar hyn o bryd, yn disgwyl cario diffyg sylfaenol o £24.8 miliwn ymlaen i 2011-12. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ei holl gynlluniau arbed ar gyfer y dyfodol yn cael eu dadansoddi'n gadarn fel bod lefelau arbed yn gyflawnadwy. Tan yn ddiweddar roedd y Bwrdd lechyd yn rhagamcan diffyg o £31 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddwyd rhagor o arian bellach gan Lywodraeth y Cynulliad ac ar hyn o bryd mae'r Bwrdd lechyd yn rhagamcan y bydd yn mantoli'r gyllideb.

Mae adolygiadau archwilio perfformiad unigol wedi tynnu sylw at nifer o heriau penodol a rhai sylweddol yn aml sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd; ymhob achos mae mentrau ar waith i ymdrin â'r pryderon a nodwyd er y bydd angen monitro cynnydd yn ofalus er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud

39. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn dwyn ynghyd y canfyddiadau o waith archwilio perfformiad a edrychodd ar feysydd penodol o ddarparu gwasanaethau o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'n crynhoi canfyddiadau gwaith a wnaed ar y canlynol:
- dysgu gwersi o gwynion, digwyddiadau a hawliadau esgeuluster clinigol;
 - cywirdeb data rhestrau aros;
 - gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion;
 - arlwyio mewn ysbytai;
 - gweld manteision y contract newydd ar gyfer meddygon ymgynghorol;
 - trefniadau staffio meddygol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

Ymddengys bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu dulliau dysgu sefydliadol cadarn a ddylai helpu i sicrhau bod y gwersi angenrheidiol yn cael eu dysgu yn dilyn cwynion, digwyddiadau andwyol a hawliadau esgeuluster clinigol

40. Amlygodd gwaith archwilio a wnaed yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent ychydig cyn ad-drefnu'r GIG fod gan yr Ymddiriedolaeth lawer o waith i'w wneud o hyd i atgyfnerthu ei threfniadau ar gyfer dysgu o gwynion, hawliadau a digwyddiadau andwyol. Y prif feysydd a oedd yn peri pryder oedd:
- gwendidau yn y ffordd y rhoddwyd gwybodaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth;
 - pwyllgorau ac is-grwpiau â'r un cyfrifoldebau;
 - methu â chyflawni'r amser targed ar gyfer ymateb i gwynion;
 - yr angen i gynnwys staff meddygol yn agosach yn y broses o ymchwilio i gwynion a digwyddiadau andwyol a dysgu ohonynt;
 - anghysondeb wrth adrodd ar ddigwyddiadau;
 - angen i wella cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau difrifol.
41. Ar nodyn cadarnhaol, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi dechrau gweithredu nifer o fesurau i atgyfnerthu'r trefniadau hyn yn union cyn ad-drefnu'r GIG. Bu'n bosibl i'r ffrwd waith Llywodraethu Clinigol a grëwyd fel rhan o'r rhaglen drosi yng Nghymuned Iechyd Aneurin Bevan adolygu gwaith yr Ymddiriedolaeth ac adeiladu arno. Rhoddodd allbynnau'r ffrwd waith hon sylfaen gadarn i ddatblygu strwythurau, prosesau a fframweithiau newydd yn y Bwrdd Iechyd newydd.
42. Ceir ffocws clir ar ddysgu sefydliadol o fewn y Bwrdd Iechyd newydd drwy greu swydd Pennaeth Dysgu Sefydliadol, a thrwy waith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, sef un o Bwyllgorau sefydlog y Bwrdd. Mae rhaglen waith yn mynd rhagddi a ddylai helpu i ymdrin â'r materion a nodwyd gan waith archwilio a wnaed yn yr hen Ymddiriedolaeth.

Nid yw systemau TG y Bwrdd Iechyd yn ei gwneud yn hawdd cyflwyno adroddiadau cywir ar ddata amseroedd atgyfeirio i gael triniaeth

43. Ar ddiwedd 2009 cafodd gwaith ei wneud i edrych ar gywirdeb data rhestrau aros a gasglwyd ac a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd. Hefyd edrychodd y gwaith ar fanwl gywirdeb y prosesau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu data rhestrau aros. Roedd a wnelo'r data rhestrau aros a ystyriwyd ag amser atgyfeirio i gael triniaeth, sy'n mesur yr amser a gymerir rhwng derbyn atgyfeiriad gan feddyg teulu a chychwyn y driniaeth ddiffiniol.
44. Pan ddilyswyd y data gan archwilwyr dangoswyd bod ansawdd data rhestrau aros yn dderbyniol. Gwelwyd rhai mân wallau ac anghysondebau ond nid oeddent yn fwiadol ac nid oeddent yn cael effaith andwyol ar gywirdeb y data a oedd yn cael ei gyflwyno yn y bôn. Nododd yr archwilwyr hefyd fod y trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd a oedd yn gysylltiedig â data rhestrau aros yn gadarn, gyda mewnbwn a goruchwyliaeth glir ac effeithiol gan uwch reolwyr.
45. Fodd bynnag, amlygodd y gwaith archwilio broblemau sylweddol gyda natur ymarferol y System Gweinyddu Cleifion bresennol o fewn y Bwrdd Iechyd. Ni all y system bresennol ddal a chofnodi'r llwybrau atgyfeirio i gael triniaeth cyfan a chaiff gwybodaeth berthnasol megis amseroedd aros ar gyfer therapiau ei chadw mewn systemau annibynnol nad ydynt yn gwbl gysylltiedig â'r brif System Gweinyddu Cleifion.
46. Rhaid i staff wneud iawn am y cyfyngiadau hyn drwy gyflawni gwaith ychwanegol i gasglu data ar lwybrau cleifion cyfan o nifer o ffynonellau gwahanol. Mae'r gwaith hwn yn llafurus ac yn cynyddu'r risg o gynhyrchu data anghywir. Mae prosiect ar waith i ddisodli'r System Gweinyddu Cleifion bresennol, ond ni fydd yn barod tan ganol 2011. Bydd hefyd heriau a goblygiadau o ran adnoddau yn gysylltiedig â throsglwyddo gwybodaeth o'r hen system i'r system newydd.

Er bod gwelliannau pwysig wedi bod ym maes gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion ers 2005, ceir bylchau annerbyniol o hyd mewn gwasanaethau a thystiolaeth o anghydraddoldebau ymhob rhan o'r gymuned iechyd

47. Ym 2005 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad sylfaenol o wasanaethau iechyd meddwl i oedolion ledled Cymru. Arweiniodd yr adolygiad hwn at lunio adroddiadau lleol ar gyfer pob ardal awdurdod unedol/BILI yng Nghymru. Yn ystod 2009 cafodd gwaith dilynol ei wneud ymhob rhan o Went, gan ganolbwyntio ar chwe maes allweddol a berodd bryder yn yr adolygiad gwreiddiol. Mae canfyddiadau'r gwaith dilynol wedi cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd a'i awdurdodau unedol cyfansoddol. Crynhoir y negeseuon allweddol isod.

Arddangosyn 5 Cynnydd o ran mynd i'r afael â phryderon yn gysylltiedig â gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion

Mater allweddol	Sefyllfa Gwent yn 2005	Canfyddiadau dilynol
Cynllunio a chyllido	Nid oedd gweledigaeth amlasiantaethol na model gwasanaeth cytûn ar waith	Amrywiol fu'r cynnydd ledled Gwent o ran cynllunio ac ariannu gwasanaethau ers 2005, er bod y cynlluniau presennol i lunio strategaeth iechyd meddwl ar y cyd a model gwasanaeth system gyfan yn gam cadarnhaol ymlaen.
Gwasanaethau iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol	Roedd cryn dipyn o le i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol	Cymerwyd camau i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol, er bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod staff practisau wedi cael digon o hyfforddiant ym maes iechyd meddwl a hefyd i gynyddu'r cymorth a roddir i bractisau gan wasanaethau arbenigol.
Gwasanaethau cymunedol	Roedd bylchau mewn gwasanaethau cymunedol ac anghydraddoldebau mewn darpariaeth ymhob rhan o Went	Symudwyd adnoddau o gleifion mewnol i wasanaethau cymunedol ac mae ystod eang o wasanaethau cymunedol ar gael bellach. Fodd bynnag, mae lefelau staffio cymunedol cyffredinol yn gymharol isel a chyfyngir ar allu ac adnoddau mewn rhai gwasanaethau.
Therapïau siarad	Roedd rhai gwasanaethau therapi seicolegol ar gael ond nid oedd yr adnoddau yn ddigonol i fodloni'r galw	Gwnaed gwelliannau i therapïau seicolegol ers 2005 a bu rhywfaint o gynnydd tuag at fodel gofal "haenog", ond nid ydym wedi cael tystiolaeth o unrhyw leihad cyffredinol mewn amseroedd aros.
Llety a thai	Roedd asiantaethau yn ei chael yn anodd diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau o ran llety a thai	Nid yw polisïau ac arferion tai yn cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl yn effeithiol o hyd, a bu cynnydd amrywiol tuag at gyflawni'r targedau ar gyfer gwasanaethau tai a nodir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.
Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn eu cynlluniau gofal	Roedd profiad defnyddwyr gwasanaethau o gynlluniau gofal yn amrywio gormod ac roedd prinder gwybodaeth gyfredol i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn rhai rhannau o Went	Mae angen gwneud mwy o hyd i roi digon o gymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u cynnwys yn ddigonol yn eu gofal, er bod tystiolaeth o welliannau diweddar ym maes cynllunio gofal.

48. Dangosodd y gwaith dilynol fod amrywiadau ac anghydraddoldebau annerbyniol o hyd wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion yng Ngwent. Mae angen i wasanaethau gael eu moderneiddio a'u hailfodelu ymhellach er mwyn mynd i'r afael â'r pryder hwn. Yn dilyn ad-drefnu'r GIG bu nifer o ddatblygiadau nodedig i'r trefniadau ar gyfer cynllunio, rheoli a chraffu ar wasanaethau drwy'r trefniadau rheoli diwygiedig o fewn y Bwrdd Iechyd, creu Pwyllgor Iechyd Meddwl sy'n cynnwys cynrychiolaeth amlasiantaethol, a sefydlu Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig. Dylai'r mentrau hyn fod yn hwb newydd i gyflawni'r datblygiadau parhaus i wasanaethau sydd eu hangen.

Er bod trefniadau arlwyio mewn ysbytai yn dangos sawl agwedd ar arfer da cydnabyddedig, mae lle i leihau nifer y gwahaniaethau nas dymunir mewn arferion a gweithredu i leihau'r gwastraff bwyd diangen a gynhyrchir

49. Yn ystod haf 2010 cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau arlwyio mewn ysbytai o fewn y Bwrdd Iechyd i bennu a oedd gwasanaethau arlwyio yn cael eu darparu'n effeithiol ac yn unol ag arfer da cydnabyddedig. Adolygodd yr archwilwyr drefniadau ymhob rhan o'r 'gadwyn fwyd' arlwyio o gynllunio a chaffael i gludo bwyd i'r ward a'i weini i gleifion. Fel rhan o'r gwaith arsylwyd wardiau yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall. Cafodd canfyddiadau'r archwiliad eu cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2010 gan ymgorffori canlyniadau gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar weithredu llwybr gofal maethol Cymru gyfan. Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio ym maes arlwyio isod.

Arddangosyn 6 Gwasanaethau arlwyio mewn ysbytai

Prif gasgliadau	
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r broses o gynllunio gwasanaethau arlwyio yn effeithiol er bod lle i wella asesiadau maethol o fwydlenni a gwaith craffu ar berfformiadau gwasanaethau ar lefel bwrdd. Caiff bwyd ysbyty ei gaffael yn effeithiol a rheolir cost cynhyrchu bwyd yn dda. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae wardiau yn archebu bwyd yn Nevill Hall yn arwain at lefelau diangen o wastraff bwyd. Daw prydau bwyd i'r ward mewn cyflwr da ond nid yw'r ward ei hun bob amser yn barod am amser bwyd, ac yn Nevill Hall ni chaiff y nyrsys ar rai wardiau eu cynnwys digon yn y gwasanaethau prydau. Mae'r trefniadau lefel ward ar gyfer asesu statws maethol cleifion a monitro eu bwyd a diod yn amrywio'n sylweddol yn y Bwrdd Iechyd. Dangosodd ein harolygon fod boddhad cleifion â'r gwasanaeth prydau yn gymharol uchel. Fodd bynnag, mae angen i drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer casglu barn cleifion wella a chael eu cydgysylltu'n well. 	
Cryfderau allweddol	Meysydd i'w gwella
<ul style="list-style-type: none"> Nododd 82 y cant o gleifion a wnaeth ymateb i'n harolwg eu bod yn fodlon ar y bwyd a gafwyd. Mae'r bwydlenni'n cynnig dewis da o brydau i gleifion a gallant ddarparu ar gyfer gofynion dietegol penodol a hoff fwydydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r broses o sgrinio maeth pan dderbynnir cleifion, a thrwy gydol eu hamser yn yr ysbyty, yn anghyson ac mae angen ei gwella ar sawl ward. Mae angen i'r broses o gofnodi'r hyn a fwyteir fod yn fwy cyson, ac mae angen i siartiau bwyd a hylif gael eu

<ul style="list-style-type: none"> • Mae strategaethau a pholisïau cynhwysfawr ar gyfer arlwyio a maeth ar waith a chânt eu diweddarau i adlewyrchu trefniadau rheoli newydd yn dilyn ad-drefnu'r GIG. • Rheolir trefniadau caffael yn dda a'r Bwrdd lechyd yw'r cyntaf yng Nghymru i lunio ei bolisi caffael cynaliadwy ei hun. • Helpwyd i reoli costau drwy gyflwyno lwfans costau bwyd dyddiol diffiniedig. • Y gwasanaeth arlwyio nad yw ar gyfer cleifion yn Ysbyty Brenhinol Gwent yw'r cyntaf yng Nghymru i wneud elw. • Mae bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da gan adlewyrchu'r buddsoddiad a wnaed mewn trolïau arlwyio. • Sefydlwyd Fforwm Hanfodion Gofal i reolwyr wardiau yn Ysbyty Brenhinol Gwent sy'n fodd i staff rannu'r hyn a ddysgwyd ac arfer gorau. • Gwelwyd trefniadau cadarn ar gyfer sgrinio a monitro maeth ar rai o'r wardiau yr ymwelwyd â hwy. 	<p>llofnodi gan nyrsys cymwys.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r rhan fwyaf o fwydlenni wedi cael eu hasesu o ran maeth. • Mae angen i'r polisi diogelu amser bwyd gael ei weithredu'n ehangach yn y Bwrdd lechyd. • Mae angen i brosesau archebu bwyd yn Nevill Hall gael eu gwella er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y pryd cywir, ac y cynhyrchir cyn lleied o wastraff â phosibl. • Mae angen cyflwyno trefniadau i reoli maint prydau yn well. • Mae angen sefydlu fforymau sy'n helpu rheolwyr wardiau i gyflwyno arferion mwy effeithiol yn Nevill Hall. • Mae angen i'r Bwrdd gael gwybodaeth fwy ystyrlon am berfformiad gwasanaethau arlwyio a maeth er mwyn ategu gwaith craffu mwy effeithiol. • Mae angen i'r canlyniadau sy'n deillio o arolygon cleifion ar wahân gan staff arlwyio a nyrsio gael eu rhannu a'u defnyddio'n fwy effeithiol i lywio datblygiadau mewn gwasanaethau.
--	---

Mae'r Bwrdd lechyd yn wynebu rhai heriau penodol mewn perthynas â staff meddygol, sy'n ymwneud â chynllunio swyddi ymgynghorol a lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon locwm mewn adrannau damweiniau ac achosion brys

50. Yn ystod 2010, cwblhawyd gwaith ar ddwy elfen wahanol ym maes staff meddygol: adolygiad o fanteision y contract diwygiedig ar gyfer meddygon ymgynghorol; ac adolygiad o drefniadau staffio meddygol mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'r adolygiadau hyn wedi tynnu sylw at heriau penodol i'r Bwrdd lechyd o ystyried y canlynol:

- ac eithrio nifer fach o arbenigeddau, nid yw'r Bwrdd lechyd na'i feddygon ymgynghorol yn mwynhau holl fanteision bwriadedig y contract ar gyfer meddygon ymgynghorol;
- hyd yn hyn prin fu'r llwyddiant a gafwyd o ran datrys problemau staffio meddygol hirdymor mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac mae angen cymryd camau pellach i ymdrin â swyddi gwag, lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon locwm a mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o reoli lles staff.

51. Crynhoir prif ganfyddiadau'r ddau adolygiad hyn isod.

Arddangosyn 7 Heriau ym maes staff meddygol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd

Mwynhau manteision y contract diwygiedig ar gyfer meddygon ymgynghorol

Ac eithrio ambell i arbenigedd, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio prosesau cynllunio swyddi fel dull effeithiol o ategu'r gwaith o gynllunio a moderneiddio gwasanaethau:

- ceir gwendidau yn y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli prosesau cynllunio swyddi ymgynghorol ar hyn o bryd;
- er bod tystiolaeth bod prosesau cynllunio swyddi yn cael eu defnyddio i ategu'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau mewn rhai arbenigeddau, nid oedd hyn yn ganfyddiad nodweddiadol;
- mae gan y model arweinyddiaeth glinigol newydd y potensial i wella effeithiolrwydd prosesau cynllunio swyddi ond mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod hyn yn cael ei ymgorffori'n effeithiol a bod y buddsoddiad ychwanegol yn creu'r manteision a fwiadwyd.

Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y contract yn hwyluso amgylchedd gwaith cadarnhaol a thecach i bob meddyg ymgynghorol:

- ar y cyfan roedd y broses o recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol yn cael ei hystyried yn gadarnhaol gan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gall fod anghydraddoldebau canfyddedig rhwng ac o fewn timau clinigol sy'n deillio o'r ffordd y caiff rhai swyddi newydd eu hysbysebu;
- mae llawer o feddygon ymgynghorol yn dal i weithio mwy na 10 ac weithiau 12 o sesiynau'r wythnos;
- ni chaiff y contract ar gyfer meddygon ymgynghorol ei ddefnyddio fel modd i ymdrin â'r amrywiadau o ran cynhyrchiant meddygon ymgynghorol;
- mae'r Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd yn golygu bod rhai meddygon ymgynghorol yn cael mwy o waith nas cynlluniwyd, sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni ymrwymadau cynllun swydd a drefnwyd.

Staff meddygol adrannau damweiniau ac achosion brys

- Mae'r arian a gaiff ei wario ar feddygon locwm asiantaeth yn y prif adrannau damweiniau ac achosion brys yn codi'n sylweddol, wedi ei lywio gan fwy a mwy o swyddi gwag parhaol.
- Gwellwyd rotâu a gwaith sifft meddygon adrannau damweiniau ac achosion brys ond ni ellir cynnal y sefyllfa hon heb wneud newidiadau i'r model staffio meddygol.
- Mae angen mynd i'r afael â chryn heriau ym meysydd cyllid, recriwtio a hyfforddiant cyn y gellir gweithredu cynlluniau gweithlu newydd yn llwyddiannus.
- Ni chaiff effeithiolrwydd polisiâu, gweithdrefnau na mentrau mewn perthynas â lles staff eu monitro na'u cofnodi'n ddigonol mewn modd systematig.

52. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r angen i wella prosesau cynllunio swyddi ac mae mentrau ar waith i atgyfnerthu'r trefniadau presennol, yn fwyaf nodedig drwy weithredu rhaglen waith chwe mis a fydd yn anelu at gwmpasu'r rhan fwyaf o feysydd sy'n peri pryder a nodwyd gan archwilyr.
53. Lleihawyd rhai o'r problemau a nodwyd yn yr adolygiad o staff meddygol adrannau damweiniau ac achosion brys o ganlyniad i lenwi swyddi gwag gradd ganol. Datblygwyd mentrau eraill, megis cylchdroi meddygon ymgynghorol rhwng Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall er mwyn lleihau'r bwlch yn y rota yn Nevill Hall. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu model

gweithlu newydd a rotâu ymarferol, a sicrhau yr ystyrir swyddi gradd ganol a swyddi nad ydynt yn ymwneud â hyfforddiant mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn rhai atyniadol.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Llythyr Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau Archwilio Ariannol	
ISA260 Adroddiadau i gyrrff rhagflaenol	Mawrth 2010
Archwiliad o'r Cyfrifon Ariannol ac Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu - Datganiadau Ariannol 2009/10	Mehefin 2010
Adroddiad ar y Cyfrifon Terfynol i'r Rheolwyr	Medi 2010
Archwiliad o'r Cyfrifon Ariannol ac Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu - Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedolaeth Datganiadau Ariannol 2009/10	Tachwedd 2010
Adroddiadau Archwilio Perfformiad	
Ad-drefnu'r GIG (a gynhwyd mewn llythyr archwilio blynyddol interim i gyrrff rhagflaenol)	Tachwedd 2009
Ansawdd data rhestrau aros	Ebrill 2010
Adolygiad o drefniadau ar gyfer dysgu o gwynion, digwyddiadau a hawliadau esgeuluster clinigol	Mehefin 2010
Adolygiad o Staff Meddygol Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	Medi 2010
Arlwyo mewn Ysbytai	Hydref 2010
Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion	Tachwedd 2010
Moderneiddio Tâl: Contract Meddyg Ymgynghorol	Rhagfyr 2010
Asesiad strwythuredig	Chwefror 2011
Adroddiadau eraill	
Strategaeth Archwilio	Chwefror 2010
Llythyr archwilio blynyddol interim i gyrrff rhagflaenol	Mehefin 2010

Mae hefyd nifer o archwiliadau o berfformiad sydd naill ai wedi'u cynllunio neu ar waith yn y Bwrdd Iechyd. Rhestrir y rhain isod a dangosir y dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Cymharu data staff wardiau	Chwefror 2011
Derbyniadau brys	Chwefror 2011
Ystafelloedd llawdriniaethau a llawdriniaethau achosion dydd	Mawrth 2011
Adolygiadau dilynol o'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd, Cleifion Allanol, Caffael a Mamolaeth	Chwefror - Ebrill 2011
Cadernid systemau TGCh	Mai 2011

Atodiad 2

Ffi archwilio

Nododd y Strategaeth Archwilio ar gyfer 2010 ffi archwilio arfaethedig o £480,780 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn y strategaeth.

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, roedd y ffi am y gwaith archwilio a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn £37,415.

Dylid hefyd nodi i'r strategaeth archwilio gyfeirio at y ffaith y byddai gwaith archwilio perfformiad yn cael ei wneud ar ofal iechyd parhaus. Trafodir natur berthnasol y gwaith hwn gyda'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. Efallai y bydd y trafodaethau hyn yn arwain at weld pwnc arall yn cymryd lle'r gwaith hwn.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: wales@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk